

BREXIT

Mae llawer o faterion pwysig yn y fantol yn yr etholiad hwn. Fodd bynnag, i lawer o bobl y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd fydd y mater pwysicaf. Gall chweraedd y ddadl ynghylch Brexit beri i ni amau cymhellion pobl rydym yn anghytuno â hwy ac anghofio bod gwerth i safbwyntiau eraill. Fel Cristnogion fe'n gelwir i gydnabod bod y rhai yr anghytunwn â hwy hefyd wedi eu creu ar lun a delw Duw ac y gallant fod yn dirnad rhywbeth na allwn ninnau.



GWERTHFAWROGI SAFBWyNTIAU GWAHANOL

Dengys arolygon barn fod y cyhoedd ym Mhrydain wedi cael llond bol ar Brexit a'u bod yn ddiogel â gwleidyddion am fetu â datrys y sefyllfa. Mae'r arolygon hynny hefyd yn dangos nad oes mwyafrif clir o blaid unrhyw un o'r datrysiadau posibl a gynigiwyd. Mae hynny'r un mor wir ar gyfer Cristnogion ag ar gyfer grwpiau eraill.

Mae mater Brexit yn croesi ffiniau pleidiau gwleidyddol ac wedi creu rhaniadau newydd. Mae cyswllt agos rhwng y rhaniadau hynny â pha mor gadarnhaol yw teimladau pobl ynghylch newidiadau demograffiaid a diwyllianol diweddar yn y DU ac â pha mor agored ydynt i dderbyn newidiadau mwy fyth yn y dyfodol.

Yn y gorffennol, y duedd fu i bleidiau gwleidyddol ddenu pobl â syniadau economaidd ac amgylchiadau economaidd tebyg waeth beth oedd eu nodweddion o safbwynt personoliaeth megis parodrwydd i dderbyn newid. Mae Brexit, fodd bynnag, yn tueddu i rannu pobl ar sail oedran, ethnigrwydd ac addysg mewn ffordd na welwyd o'r blaen. Bu'r adlinio hwn yn bryder i lawer ac rydym ymhell o ddeall sut rydym i drafod, argyhoeddi a chynghreirio ar draws y rhaniadau newydd hyn.

Y CYTUNDEB Â'R UNDEB EWROPEAIDD

Mae'r DU wedi sicrhau cytundeb ar gyfer gadael yr UE. Bydd raid i'r Llywodraeth nesaf benderfynu p'r un ai a fydd yn parhau gyda'r cytundeb presennol ynteu'n ceisio cael cytundeb newydd ynteu'n atal y broses Brexit yn llwyr. Gallai'r Senedd newydd benderfynu cynnal refferendwm pellach ar ryw bwynt yn y broses.

GWESTIYNAU AR GYFER YMGEISWYR

Beth bynnag a ddigwydd yn y pen draw ynghylch Brexit bydd llawer iawn o bobl wedi'u siomi'n ddybryd – sut fyddwch chi'n ceisio eu cynnwys hwythau wrth i ni gamu ymlaen?

Beth yw eich gweledigaeth chi ar gyfer perthynas Prydain a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol?

Mae'r cytundeb presennol yn cynnwys gwneud taliadau pellach i'r UE, fframwaith o hawliau ar gyfer dinasyddion yr UE a'r DU a chyfnod pontio pryd y bydd cam nesaf y trafodaethau, ynghylch y berthynas yn y dyfodol, yn digwydd.

Os bydd y Llywodraeth nesaf yn parhau â'r cytundeb presennol, ychydig o newid a fydd yn y lle cyntaf, gan y byddwn yn cychwyn ar gyfnod pontio pan fydd y trefniadau presennol yn parhau mewn grym. Bydd yr UE a'r DU yn dechrau ar gyfres newydd o drafodaethau i geisio cytuno ar drefniadau newydd ar gyfer masnach, mewnfudo, diogelwch a thollau. Mynegwyd pryderon ynghylch a ellir cytuno ar drefniant masnach cymhleth o'r fath o fewn yr amserlen a ragwelir ar gyfer y broses. Y sefyllfa ddiodyn o hyd yw gadael heb unrhyw gytundeb ar ddiwedd y cyfnod pontio hwn.

Bydd angen sicrhau cytundebau â gwleidydd eraill hefyd un ai i gymryd lle'r partneriaethau sydd gennym eisoes drwy'r UE neu i greu cysylltiadau masnachu newydd.

GOGLEDD IWERDDON

Mewn meysydd megis amaethyddiaeth a bwyd, bydd raid i Ogledd Iwerddon ddilyn rheolau'r UE a bydd yn parhau'n rhan o drefn Treth ar Werth yr UE yn yr hirdymor. Bwriad hynny yw lleihau i'r eithaf yr angen am wiriadau ar y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon ond fe fydd yn golygu gwirio nwyddau'n cael eu cludo rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU.

Yn y tymor byr, bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn rheolau'r UE. Mae llawer o faterion heb eu datrys ar gyfer y dyfodol pellach gan na chytunwyd eto ar drefniadau gwirio a gweinyddu nac ar gytundeb masnach rhwng y DU a'r UE.

CWESTIYNAU I'W TRAFOD

Mae Brexit yn bwnc sy'n effeithio ar y pen a'r galon. Os oes gennych chi farn bendant ynghylch Brexit, beth o werth a welwch chi yn y dadleuon o'r ochr arall?

Pa werthoedd ydych chi'n credu ei bod yn bwysig bod Prydain yn parhau i'w harddel p'r un ai a ydym yn aros yn yr UE ai ynteu'n ei gadael?



Fel mae pethau'n sefyll, bydd y DU yn gadael yr UE ar 31 Ionawr 2020.